Hydref 19, 2018

I Fudiadau sy'n Aelodau Llawn o
Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Annwyl Aelod

ETHOL YMDDIRIEDOLWYR AR FWRDD YMDDIRIEDOLWYR CGGSB

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CGGSB, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr 31ain o Fawrth 2017 ar ddydd Mercher Tachwedd 15, 2018 yn Neuadd y Frenhines, Stryd Fawr, Arberth, Sir Benfro o 10.15yb. Mae croeso i faint fynnoch chi o gynrychiolwyr eich mudiad i fynychu, ac mae gwahoddiad ffurfiol yn amgaeëdig. Y cyfan a ofynnwn yw eich bod yn rhoi gwybod faint fydd yn mynychu.

Pwrpas y llythyr hwn yw amgáu ffurflenni enwebu Ymddiriedolwyr i wasanaethu ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn y flwyddyn sydd i ddod (2019). Edrychwn ymlaen at dderbyn enwebiadau oddi wrth aelodau CGGSB, i atgyfnerthu corff llywodraethu'r Gymdeithas ac i ychwanegu at sgiliau a phrofiad yr ymddiriedolwyr presennol.

Rydym yn gofyn i'n haelodau i enwebu pobl addas i arwain y Gymdeithas yn y flwyddyn sydd i ddod ac i ddarparu Bwrdd Cyfarwyddwyr / Ymddiriedolwyr cadarn, er mwyn rhoi arweinyddiaeth strategol glir a rheolaeth ariannol gadarn.

Ar hyn o bryd mae dwy swydd wag ar gyfer ymddiriedolwyr etholedig ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ceir rhestr o'r Ymddiriedolwyr a gadarnhawyd yn y CCB diwethaf dros y dudalen. Mae'n nodi pa Ymddiriedolwyr sy'n gadael a'u parodrwydd / argaeledd i sefyll i gael eu hailethol.

Dylid dychwelyd ffurflenni enwebu i CGGSB erbyn hanner dydd ar Ddydd Llun 12 Tachwedd, 2018. Os digwydd i ni dderbyn mwy o enwebiadau na'r nifer o leoedd sydd ar gael, byddwn yn trefnu i gynnal pleidlais yn y CCB.

Yn ogystal, mae ffurflenni enwebu ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan, yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n rhaid argraffu ac **arwyddo'r** ffurflenni cyn eu dychwelyd i CGGSB.

Rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth gyda'r mater pwysig hwn ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich enwebiadau ac i'ch croesawu chi i'r CCB. Mae'n bwysig bod grwpiau sy'n aelodau archebu eu lleoedd cyn gynted ag y bo modd. Archebwch eich lle (oedd) ar y ffôn ar 01437 769 422 neu anfonwch e-bost i enquiries@pavs.org.uk.

Yr eiddoch yn gywir

Sue James-Davies

Sue James-Davies
Rheolwr Gwasanaethau Busnes

Amg

PEMBROKESHIRE
ASSOCIATION OF
VOLUNTARY SERVICES
36/38 HIGH STREET
HAVERFORDWEST
PEMBROKESHIRE SA61 2DA
TEL: 01437 769422
FAX: 01437 769431
E-mail: enquiries@pavs.org.uk

CYMDEITHAS
GWASANAETHAU
GWIRFODDOL SIR BENFRO
36/38 Y STRYD FAWR
HWLFFORDD
SIR BENFRO SA61 2DA
FFÔN: 01437 769422
FFACS: 01437 769431
E-bost: ymholiadau@pavs.org.uk

Company Limited by Guarantee.
Registered Number 3343059
Registered Charity Number
1063289

Cwmni Cyfyngedig trwy Warant.
Rhif Cofrestredig 3343059
Elusen Gofrestredig 1063289

CYMDEITHAS GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR BENFRO

YMDDIRIEDOLWYR Y GYMDEITHAS

Bu'r ymddiriedolwyr canlynol yn gwasanaethu ar y Bwrdd yn ystod y flwyddyn 2018:

Rolau penodedig:

John Gossage (**Cadeirydd**)

Charles Carter (**Is-gadeirydd**) – Penodwyd 10 Mai 2018

Bernie Scourfield (**Ymddiriedolwr gyda Chyfrifoldeb Arbennig dros Gyllid**)

Ymddiriedolwyr Etholedig:

Gerard Davies

Dilys Fletcher - Ymddeol

Elizabeth Muir-Edwards – Cyfetholedig 10 May 2018

Helen Murray – Cyfetholedig 10 Mai 2018

Barbara Priest

Marc Tierney

Alan Thomas

Mae un Ymddiriedolwr yn ymddeol wedi naw mlynedd o wasanaeth, yn unol â gofynion ein Memorandwm ac Erthyglau Sefydlu. Bydd dau Ymddiriedolwr arall, a gyfetholwyd i'r Bwrdd o fewn y flwyddyn bresennol, yn ceisio cael eu henwebu / ethol i'r Bwrdd